



Ynni
Cymunedol Cymru
Community Energy
Wales

Ynni Cymunedol Cymru

Rheolwr Marchnata a Hyrwyddo

Yn atebol i:- Bwrdd YCC

Rheolwr:- Cyfarwyddwr Gweithredol

Lleoliad: Swyddfa yng Nghaerdydd, ond yn agored i ddewisiadau hyblyg o ran lleoliad gwaith

Tâl - £30,000 - £33,000 yn ddibynnol ar brofiad (ystyriwn oriau llawn amser, rhan amser neu hyblyg)

Bwriad Ynni Cymunedol Cymru yw gosod prosiectau ynni cynaliadwy wrth galon cymunedau yng Nghymru. Mae cymunedau'n gallu dod yn gryfach, yn fwy gwydn ac yn hunan gynhaliol drwy gynhyrchu ynni eu hunain, ei ddefnyddio'n effeithlon a defnyddio'r incwm i adnewyddu eu cymunedau.

Bydd CEW yn creu'r newid hwn drwy ysbrydoli, grymuso a dylanwadu ar bobl, polisïau ac ymarfer ledled Cymru. Rydym yn dod â rhwydwaith o ymarferwyr ynghyd sy'n gweithio gyda chymunedau ac o fewn cymunedau yng Nghymru i ddatblygu prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a chynlluniau effeithlonrwydd ynni. Rydym yn llais i gymunedau sydd eisïau gweithredu heddiw, ac rydym yn darparu'r cymorth addysgol, ymarferol ac ariannol i alluogi cymunedau i berchen ar osodiadau ynni adnewyddadwy a chynlluniau effeithlonrwydd ynni a/neu eu gweithredu.

Prif ddiben y swydd:

Mae Ynni Cymunedol Cymru'n chwilio am unigolyn egnïol i ddatblygu rhwydwaith CyfranNi ac adeiladu'r rhwydwaith honno i gefnogi cynigion cyfranddaliadau cymunedol a bondiau yng Nghymru. Bydd y rôl yn cynnwys datblygu ymgyrch Gymru gyfan i hyrwyddo budd a gwerth cyfranddaliadau cymunedol yng Nghymru, ac i annog pobl i danysgrifio i'r rhwydwaith a datblygu gwasanaeth i'n haelodau er mwyn rhoi cymorth iddynt i ddatblygu cynigion cyfranddaliadau cymunedol. Mae'r swydd yn gofyn am brofiad marchnata, o greu ymgyrchoedd effeithlon sydd wedi cyrraedd ystod eang o bobl. Rydym yn chwilio am rywun gyda mentergarwch, sgiliau pobl rhagorol ac angerdd ac ymrwymiad go iawn tuag at ynni



Ynni
Cymunedol Cymru
Community Energy
Wales

adnewyddadwy, cynaliadwyedd a datblygu cymunedol. Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg o fudd i'r swydd hon.

Cyfrifoldebau'r swydd:

- Gweithio'n rhagweithiol gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol i gyflawni bwriadau YCC ar amser, o fewn y gyllideb ac i safon uchel
- Hybu cenhadaeth, bwriadau a gweithgarwch Ynni Cymunedol Cymru yn ôl y gofyn a chynrychioli'r sector gyda rhanddeiliaid allweddol
- Creu ymgyrch farchnata i hybu buddion buddsoddi mewn ynni cymunedol drwy gynigion cyfranddaliadau cymunedol a bondiau.
- Creu gwasanaeth i aelodau a sefydliadau eraill i gefnogi eu cynigion cyfranddaliadau a'u helpu gyda'u gwaith marchnata.
- Gweithio tuag at greu gwasanaeth sy'n gynaliadwy yn yr hir dymor ac o bosib ei ehangu i gefnogi ystod eang o gynigion cyfranddaliadau fel tafarndai, tir ac asedau cymunedol eraill.
- Cynnal digwyddiadau Ynni Cymunedol Cymru sy'n hybu cyfleoedd i rai sydd â diddordeb mewn cefnogi'r sector.
- Cefnogi egwyddorion ac arferion cydraddoldeb ac amrywiaeth fel a manylir ym Mholisiau YCC.
- Dilyn polisi a gweithdrefnau iechyd a diogelwch YCC a sicrhau eich bod yn gweithio'n ddigoel.

Cymwysterau

Yn ddelfrydol gyda gradd neu gyfwerth mewn disgybliaeth berthnasol neu brofiad cyfwerth. Bydd cymhwysterau/hyfforddiant marchnata yn fantais.

Sgiliau Hanfodol

- O leiaf 3 mlynedd o brofiad mewn swydd farchnata debyg.
- Sgiliau trefnu ardderchog a'r gallu i ddefnyddio menter ac addasu.
- Profiad o ddarparu ymgyrchoedd marchnata llwyddiannus gan ddefnyddio ystod o gyfryngau.
- Y gallu i ddatblygu a darparu gwasnaethau i gwsmeriaid/rhanddeiliaid o fewn cyllideb, ar amser ac i'r safon uchaf.
- Profiad o weithio ac ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid.
- Dealltwriaeth o ddatblygu modelau busnes cynaliadwy
- Hwylusydd gwyb sy'n gallu sicrhau ymgysylltu ystyrlon gyda chanlyniadau clir.
- Sgiliau ysgrifennu a chyflwyno arbennig a'r gallu i ddrafftio a chyflwyno gohebiaeth ac adroddiadau



Ynni
Cymunedol Cymru
Community Energy
Wales

- Y gallu i feddwl yn greadigol ac i adnabod a manteisio ar gyfleoedd.
- Cydweithiwr agored, cadarnhaol sy'n gweithio'n dda mewn tîm a sydd â'r cymhelliant i weithio'n annibynnol
- Profiad o gynnal digwyddiadau, cyfarfodydd neu seminarau/cynhadleddau a'u trefnu a'u rheoli.
- Diddordeb a brwdfrydedd gwirioneddol ar gyfer gweithio i gefnogi ynni cymunedol a chynaliadwyedd.
- Yn barod i weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau o bryd i'w gilydd ac aros dros nos i ffwrdd o adref gyda rhybudd o flaen llaw.
- Trwydded yrru lawn a'r gallu i ddefnyddio eich car eich hun at ddibenion gwaith.

Sgiliau Dymunol

- Dealltwriaeth o'r sector ynni cymunedol.
- Profiad o gyflawni cynigion cyfranddaliadau llwyddiannus.
- Profiad o greu deunydd trawiadol gan ddefnyddio dylunio graffeg, ffilm, neu gyfryngau eraill.
- Y gallu i gyfathrebu drwy'r Gymraeg.